16.06.2022

Leah Dafydd
Cyswllt leah.dafydd@s4c.cymru
Ffôn Phone
03305 880418 / 07887 455572

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Nenfwd neuadd Wynnstay yn gadael Aled Samuel yn fud!

Y cyflwynydd Aled Samuel a'r cynllunydd Mandy Watkins sy'n ein tywys drwy ddrysau rhai o dai mwyaf trwsiadus, creadigol ac unigryw Cymru yn y bennod nesaf o **Dan Do nos Fercher 29 Mehefin am 8.25**.

Caiff Aled ei ryfeddu gan nenfwd ogoneddus, ac mae Mandy eisiau symud i mewn at Rhian yn Tŷ Coffi!

I'r gogledd ddwyrain mae Aled Samuel yn mynd gyntaf i ymweld ag Emma a Richard Rees sy'n byw yn y Neuadd Fawr yn stad ysblennydd Neuadd Wynnstay yn Rhiwabon, sydd erbyn hyn wedi'i rannu yn 70 uned.

"Am ganrifoedd bu'n gartref i'r Wynniaid, un o deuluoedd bonedd mwyaf cyfoethog Cymru. Llosgwyd yr adeilad ym 1858 ac fe gafodd ei ail-adeiladu yn steil *renaissance* gothig Ffrengig," medd Aled.

Mae nenfwd syfrdanol y Neuadd Fawr yn gadael Aled Samuel yn geg agored.

"Fi'n meddwl bod angen help arna'i i gau 'ngheg. Yn yr holl flynyddoedd dwi wedi bod yn cyflwyno, dwi erioed wedi gweld nenfwd fyla."

Mae'r gofod yn wefreiddiol â'i le tân 20 troedfedd wedi'i gerfio gydag Eryrod Eryri, a chwaeth a gwreiddioldeb Emma a Richard yn gyson amlwg yn eu cartref.

Nôl i'w milltir sgwâr aiff Mandy i gartref Gwenno ar Ynys Môn.

"Mae'r palet yn Nhrefin yn ddu a gwyn, ond mae llawer mwy i'r lle yma na lliw yn unig." meddai Mandy.

Wedi treulio dros flwyddyn yn ail-wneud y tŷ gyda help ei thad sy'n adeiladwr a'i brawd sy'n saer coed, mae'r trawsnewidiad yn haeddu canmoliaeth. Mae'r to du yn yr ystafell wely yn fynegiant mentrus sy'n ychwanegu naws gynnes. Llwydda Gwenno i adlewyrchu ei hoffter tuag at fonocrom yn chwaethus drwy'r tŷ, sy'n ofod croesawgar i wahodd ffrindiau.

Mae Tŷ Coffi yn gartref i'r actores Rhian Jones a'i theulu, tŷ Fictorianaidd hynod sydd yn llawn lliw, gwead a chymeriad.

“Mae’n atgoffa fi o dŷ Americanaidd…tai ti’n gweld mewn ffilms…ac mae wedi’i steilio’n berffaith.” medd y cynllunydd Mandy Watkins.

Mae golau yn bwysig iawn i Rhian sydd wedi llenwi’i chartref gyda lampau a chanhwyllau i greu naws cartrefol a’r wal wydr ar yr ail lawr yn nodwedd trawiadol.

“’Wi’n *obsessed* gyda lampau…mae golau yn bwysig iawn i fi! Fi’n caru’r tŷ yma yn y nos, mae rhywbeth yn newid, mae’r awyrgylch yn newid yn y nos.” medd Rhian.

O gothig Ffrengig, monocrom a lliw a steil cain, mae’r bennod hon yn cynnig arlwy o steiliau sydd yn siŵr o annog rhai ohonom i estyn am y brwsh paent!

**Dan Do**
**29 Mehefin 8.25, S4C**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Boom Cymru ar gyfer S4C**

16.06.2022

Leah Dafydd
Cyswllt leah.dafydd@s4c.cymru
03305 880418 / 07887 455572

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Wynnstay's ceiling leaves Aled Samuel speechless!

Presenter Aled Samuel and designer Mandy Watkins go through the doors of some of Wales's most stylish, creative and unique homes in the next episode of **Dan Do Wednesday 29 June at 8.25.**

Aled is astonished by a glorious ceiling, and Mandy wants to move in with Rhian at Tŷ Coffi!

Aled heads to the north west to visit Emma and Richard Rees who live in the Great Hall at the splendid Wynnstay estate in Rhiwabon, which has now been divided into 70 units.

"For centuries it was home to the Wynn's, one of Wales's richest families. The building was burnt down in 1858 and was re-built in a gothic French renaissance style," says Aled.

The striking ceiling of the Great Hall leaves Aled Samuel open mouthed.

"I think I need help to close my mouth. In all the years I've been presenting, I've never seen a ceiling like that."

The space is impressive with its 20 foot fire place with Eryrod Eryri carved in, and Emma and Richard's style and originality is a constant throughout.

Mandy goes back to her stamping-ground to Gwenno's home in Anglesey.

"The palette in Trefin is black and white, but there's so much more to this place than just colour." says Mandy.

Having spent over a year renovating the house with the help of her father, a builder, and her brother, a carpenter, the transformation deserves praise. The black ceiling is a bold statement which adds warmth. Gwenno manages to reflect her fondness of monochrome in a stylish way, which is a welcoming space to invite friends.

Tŷ Coffi is home to the actor Rhian Jones and her family, a distinguished Victorian house full of colour, texture and character.

"It reminds me of an American home...houses you see in films...and it's been styled perfectly," says the designer Mandy Watkins.

Lighting is important to Rhian who has filled her home with lamps and candles to create a homely atmosphere and the glass wall on the second floor is a striking statement.

“I’m obsessed with lamps...light is very important to me! I love this house at night, something changes, the atmosphere changes in the night,” says Rhian.

From French gothic, monochrome, and fine colour and style, this episode of **Dan Do** offers a variety of styles which will sure make some of us want to reach for the paint brush!

**Dan Do**
**Wednesday 29 June 8.25, S4C**
**English subtitles available**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Boom Cymru production for S4C**